**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

7 Mai 2019

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit:

Annwyl Jeremy,

**Dadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig**

Diolch i chi am eich llythyr, dyddiedig 4 Ebrill 2019, a dynnodd ein sylw at *Ddadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig* Llywodraeth y DU.


Ar ôl ystyried eich llythyr, a sylwedd y *Dadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig*, byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth gennych chi o ran safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r 70 maes y nodwyd eu bod yn gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys atodiad gyda nifer o gwestiynau y byddem yn gwerthfawrogi ymateb iddynt. Byddem yn ddiolchgar am ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a nodir yn yr atodiad erbyn dydd Mercher 22 Mai 2019, a hynny er mwyn caniatáu amser i ni eu hystyried wrth i ni baratoi ar gyfer 3 Mehefin 2019 lle byddwch yn dod gerbron y Pwyllgor.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am eich cynnig i baratoi briff technegol. Rwyf wedi gofyn i Glerc y Pwyllgor drefnu hyn gyda'ch swyddogion. Dros dro, hoffem gynnig slot ddydd Llun 20 Mai 2019.

Diolch i chi am ystyried y cais hwn. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



David Rees AC

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

# 1 Atodiad: Cwestiynau sy'n codi ar ôl trafod *Dadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig* Llywodraeth y DU

## 2 Cyffredinol

**1.** A allwch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r dadansoddiad fel y'i cyhoeddwyd? Er enghraifft, a ydych chi'n fodlon bod y meysydd polisi wedi'u llunio'n briodol?

**2.** A yw'r ffordd o gategoreiddio'r meysydd polisi yn y ddogfen yn adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru ym mhob achos?

## 3 Meysydd polisi lle **na fydd angen cymryd camau gweithredu pellach** i greu fframwaith cyffredin

**3.** Mewn perthynas â'r 27 maes sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig Cymru lle nodwyd nad oes angen cymryd camau gweithredu pellach, a allwch ddisgrifio (ar gyfer pob maes):

- sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfynu cytuno na fydd angen cymryd camau gweithredu pellach;
- sut y caiff cydweithrediad rhwng Llywodraethau ei reoli yn y dyfodol, os na fydd fframwaith ar gael; a
- lefel hyblygrwydd polisi Cymru o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael o dan drefniadau'r UE.

## 4 Meysydd polisi lle y mae Llywodraeth y DU yn credu y bydd angen rheolau neu ffyrdd o weithio cyffredin ac y mae'n disgwyl eu gweithredu drwy **gytundeb fframwaith cyffredin aneddfwriaethol**

**4.** Mewn perthynas â'r 22 maes sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig Cymru lle nodwyd bod angen fframweithiau aneddfwriaethol, a allwch chi ddisgrifio sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddod i benderfyniad ynghylch pob un o'r meysydd hyn?

**5.** Er ein bod yn deall nad ydych yn gallu cynnig sicrwydd ar hyn o bryd o ran y flaenraglen ar gyfer fframweithiau cyffredin, oherwydd y sefyllfa yn San Steffan, a allwch chi roi syniad bras o'r amserlen debygol ar gyfer ymgysylltu â'r fframweithiau hyn ac a fydd rhai meysydd penodol y rhoddir blaenoriaeth iddynt?

Nodwn fod y ddogfen dadansoddi fframweithiau diwygiedig yn awgrymu y bydd ymgysylltu ehangach yn dechrau o fis Mawrth 2019.

**6.** A allwch chi nodi'r meysydd polisi lle y mae gweithredu deddfwriaethol wedi digwydd, neu y bwriedir ei wneud, i gael 'atebion cyson' i gyfraith yr UE a ddargedwir? Os yw'n berthnasol i faes polisi, rhowch fanylion y ddeddfwriaeth a ddefnyddiwyd i gael yr 'atebion cyson' y cyfeirir atynt.

**7.** A allwch chi ddarparu asesiad o lefel hyblygrwydd polisi Cymru o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael o dan fframweithiau polisi presennol yr UE?

## 5 Meysydd polisi lle gallai fod angen deddfwriaeth yn y dyfodol

**8.** O ran y 21 maes sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig Cymru lle nodwyd bod angen deddfwriaeth, a wnewch chi (ar gyfer pob un o'r meysydd a ganlyn):

- disgrifio sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad i gytuno ar yr angen i ddeddfu;
- nodi unrhyw gamau deddfwriaethol a gymerwyd hyd yn hyn i baratoi ar gyfer sefydlu fframweithiau deddfwriaethol e.e. drwy offerynnau statudol ymadael â'r UE, Biliau'r DU neu ddulliau deddfwriaethol eraill;
- darparu manylion unrhyw ddulliau deddfwriaethol yn y dyfodol sydd wedi'u nodi ar gyfer sefydlu fframweithiau deddfwriaethol e.e. Biliau'r Cynulliad yn y dyfodol, Biliau'r DU, neu ddulliau deddfwriaethol eraill, ac
- asesiad o lefel hyblygrwydd polisi Cymru o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael o dan fframweithiau polisi presennol yr UE?

## 6 Meysydd polisi y mae Llywodraeth y DU yn credu eu bod wedi'u cadw

**9.** Beth yw eich safbwynt o ran cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r meysydd polisi a restrir ar dudalen 40 o'r *Dadansoddiad Fframweithiau Diwygiedig*?

Mae Cymorth Gwladwriaethol a Dynodiadau Daearyddol Bwyd yn feysydd polisi sydd o ddiddordeb arbennig i ni.

## 7 Materion Trawsbynciol

**10.** Pa gynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu:

- trefniadau llywodraethu ar gyfer fframweithiau yn y dyfodol, gan gynnwys dulliau gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau;
- dealltwriaeth gyffredin o farchnad fewnol y DU, gan gynnwys egwyddorion sylfaenol a strwythurau llywodraethu y gellid eu defnyddio;
- dealltwriaeth o'r gorgyffwrdd rhwng y gwaith ar fframweithiau gyda thrafodaethau'r UE, cymryd rhan mewn cytundebau masnach rydd yn y dyfodol a rhwymedigaethau rhyngwladol, a'r
- sylfaen dystiolaeth i ategu'r angen am fframweithiau.

## 8 Craffu

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried model posibl ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar fframweithiau, ac rydym yn gobeithio ymgynghori ar hyn yn fuan.

**11.** Yn y cyfamser, pa drafodaethau sydd wedi digwydd o fewn Llywodraeth Cymru, a chyda llywodraethau eraill y DU, ynglŷn â sut y gellir agor gwaith rhynglywodraethol ar fframweithiau deddfwriaethol ac aneddfwriaethol i ddeddfwriaethau'r DU graffu arnynt?